

VTCT Diploma NVQ mewn Therapi Harddwch Lefel 2



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer pobl o bob oed sydd â diddordeb mewn therapi harddwch. Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno'r disgyblaethau a sgiliau sylfaenol yn y sector harddwch.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Oes gennych chi ddiddordeb brwd mewn therapi harddwch
- ... Ydych chi am ddysgu sgiliau a thechnegau newydd ar gyfer triniaethau harddwch
- ... Ydych chi'n gyfeillgar ac yn weithgar

Beth fyddaf yn ei wneud?

Therapi harddwch yn ddiwydiant sy'n tyfu ac sy'n cynnig cyflogaeth sicr ac amrywiol. Mae mwy a mwy o bobl yn ymweld â therapyddion harddwch wrth i driniaethau therapi harddwch

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

esblygu a dod yn boblogaidd. Mae llawer o ddynion nawr yn ymweld â salonau harddwch ar gyfer amrywiaeth o wahanol driniaethau. Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol o dwtio dynion ac mae'n cael ei gefnogi gan y nifer cynyddol o gynhyrchion harddwch sydd ar gael i ddynion ar silffoedd yr archfarchnadoedd ac mewn siopau harddwch.

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn therapi harddwch ac mae'n addas ar gyfer pob oedran. Argymhellir yn gryf eich bod yn cwblhau'r rhaglen dwy flynedd (Lefel 2 a Lefel 3 mewn Therapi Harddwch) i roi'r cymwysterau angenrheidiol i chi gael eich cyflogi fel Therapydd Harddwch cwbl gymwys.

Byddwch yn dysgu am ymgynghoriadau cleientiaid ac unedau megis:

Trin dwylo

Trin traed

Gofal croen

Adwerthu

Derbynfa

Celf ewinedd

Colur

Triniaethau llygaid

Cwyo

Gall unedau ychwanegol gynnwys amrannau parhaol, gwella ewinedd a chuddliw cosmetig.

Caiff y cwrs ei gyflwyno drwy gyfuniad o'r canlynol:

Ddosbarthiadau theori

Gweithdai ymarferol

Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg yn gweithio ar gleientiaid

Sesiynau masnachol

Arddangosiadau

Ymarferion chwarae rôl

Gwaith grwp

Lleoliadau gwaith - naill ai bob wythnos neu mewn bloc

Ymweliadau a thripiâu i gwmnïau cosmetig ac arddangosiadau diwydiant

Yn ychwanegol at eich cwrs, byddwch yn cael eich annog i gymryd rhan yn y canlynol:

Cystadlaethau mewnol yn y coleg

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a Sgiliau'r Byd

Gweithgareddau cymunedol

Dyddiau ymwybyddiaeth cynnyrch a thriniaethau yn y diwydiant



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion aml-ddewis ar-lein sy'n cwmpasu'r wybodaeth sylfaenol. Ar ôl cwblhau, byddwch yn cyflawni:

NVQ Lefel 2 Therapi Harddwch
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#)

Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd angen i chi feddu ar 3 chymhwyster TGAU, gradd D neu uwch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 perthnasol yn y maes galwedigaethol perthnasol gan gynnwys naill ai cymhwyster TGAU mewn Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf.

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar isafswm y cymwysterau TGAU eu hystyried yn seiliedig ar brofiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Bydd yn rhaid i chi feddu ar hunan-gymhelliant, bod yn weithiwr caled, cymryd balchder yn eich gwedd, bod yn rhifog a meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar. Disgwylir i chi fynychu lleoliad gwaith fel rhan o'ch rhaglen.

Cynhelir pob dosbarth ar y campws ac efallai y bydd angen i chi fod yn y coleg tan 7.30pm un noswaith yr wythnos.

Beth sy'n digwydd nesaf?

NVQ Diploma Lefel 3 mewn Therapi Harddwch neu Therapiau Cyflenwol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg:

Gwisg arbennig
Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dim tyllau'r corff: modrwy briodas yn unig a ganiateir ei gwisgo yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £86, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

